

Ymgynghoriad ar ganllawiau statudol drafft ar gyfer cyrff llywodraethu ysgolion ar bolisiau gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion

Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad

Eich enw: Rebecca Williams

Sefydliad (lle bo'n berthnasol): UCAC

e-bost/rhif ffôn: rebecca@ucac.cymru/01970 639950

Eich cyfeiriad:

UCAC, Ffordd Penglais, Aberystwyth SY23 2EU

Dylid dychwelyd ymatebion erbyn **21 Chwefror 2019** i:

Yr Is-adran Cynllunio Busnes a Llywodraethiant Addysg
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu gellir cwblhau'r ffurflen yn electronig a'i hanfon i'r cyfeiriad isod:

e-bost: schoolfundingmailbox@llyw.cymru

Cwestiwn 1 – Ydych chi'n cytuno y dylai cyrff llywodraethu ysgolion ystyried fforddiadwyedd wrth bennu eu polisi gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion?

Cytuno	✓	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	---	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau

Cwestiwn 2 – Ydych chi'n cytuno y dylai cyrff llywodraethu ysgolion ystyried argaeledd eitemau gwisg ysgol a mynediad atynt wrth bennu eu polisi gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion?

Cytuno	✓	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	---	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau

Cwestiwn 3 – Ydych chi'n cytuno na ddylai polisiâu gwisg ysgolion wahaniaethu rhwng gwahanol eitemau o ddillad ar sail rhyw neu rywedd?

Cytuno	✓	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	---	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau: Mae angen gofal yng ngeiriad y canllawiau i sicrhau nad yw hyn yn cael ei gamddeall – hynny yw, nid yw'n waharddiad, er enghraifft, ar sgertiau – ond yn hytrach, na ddylid rhagnodi dillad ar gyfer bechgyn neu ferched yn benodol.

Cwestiwn 4 – Ydych chi'n cytuno y dylai cyrff llywodraethu ysgolion nodi'n glir eu hagwedd at amrywio eitemau gwisg ysgol yn sgil amodau tywydd eithafol wrth lunio eu polisi gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion?

Cytuno	✓	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	---	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau: Yn anffodus, mae'n ymddangos – yn sgil rhai enghreifftiau penodol - bod angen gwneud hyn.

Cwestiwn 5: Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r canllawiau ar gyfer ysgolion a chyrff llywodraethu ar bolisiâu gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar:

- i) y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg
- ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut mae cynyddu effeithiau cadarnhaol neu liniaru effeithiau negyddol?

Sylwadau ategol

Cwestiwn 6: Eglurwch hefyd sut gellid ffurfio neu newid y canllawiau ar gyfer ysgolion a chyrrff llywodraethu ar wisg ysgol ac edrychiad disgyblion:

- i) fel bod effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg
- ii) fel nad oes effeithiau andwyol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Sylwadau ategol

Cwestiwn 7: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi faterion perthnasol nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y blwch isod i roi gwybod i ni amdanynt.

Mae gennym un mater o bryder, sef paragraff 4.9. Nid yw UCAC o'r farn ei fod yn briodol i'r canllawiau gynghori y gall 'penaethiaid ofyn i ddisgyblion fynd adref i newid eu dillad', hyd yn oed gyda'r *caveats* sy'n dilyn e.e. ynghylch oedran, disgyblion agored i niwed.

Mae gan yr ysgol gyfrifoldeb dros ddisgyblion yn ystod oriau ysgol, a gallai anfon disgybl (o oedran ysgol statudol) adref beryglu'r cyfrifoldeb hynny, a gadael y disgybl yn agored i berygl a gadael yr ysgol (a'r Pennaeth yn benodol) yn agored i gyhuddiadau neu brosesau disgyblu.

Rydym o'r farn y byddai'n well gofyn i'r ddisgybl dod mewn gwsg priodol drannoeth, neu o bosib (yn dibynnu ar yr amgylchiadau, a natur y wisg dan sylw), tynnu'r dilledyn problematig a/neu rhoi benthyg dilledyn priodol.

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma: